Marie Curie CYMRU

# Marw mewn Tlodi yng Nghymru 2025

Tachwedd 2025



# Cyflwyniad

Yn 2021 comisiynodd Marie Curie y Ganolfan Polisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Loughborough i archwilio nifer y bobl sy'n marw mewn tlodi yn y Deyrnas Unedig (DU) bob blwyddyn. Arweiniodd hyn at gyhoeddi adroddiad pwysig gan Marie Curie sef 'Marw mewn Tlodi', a gyhoeddwyd yn 2022 ac sy'n defnyddio data o 2019. Cyhoeddwyd dadansoddiad pellach yn 2024 oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys manylion ar gyfer tlodi tanwydd ar ddiwedd oes.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno canfyddiadau o'r dadansoddiad diweddaraf.

## Canfyddiadau allweddol

- Yn 2024, roedd 6100 o bobl mewn tlodi ar ddiwedd eu hoes. Mae hyn yn cyfateb i 17% o'r holl rai a fu farw.
- Cymru sydd â'r cyfraddau uchaf o dlodi ymhlith pobl o oedran gweithio yn ystod 12 mis olaf eu hoes, sef 32%, cynnydd o 30% ers 2023.
- Roedd 16% o bobl oedran pensiwn mewn tlodi yn 12 mis olaf eu hoes, gostyngiad o 1% yn 2023.
- Mae pobl o oedran gweithio mewn mwy o berygl o fod mewn tlodi ar ddiwedd eu hoes na phensiynwyr. Mae'r gyfradd tlodi yn cynyddu 6.5% ar gyfartaledd ar gyfer pobl o oedran gweithio yn ystod misoedd olaf eu hoes o'i gymharu â'r rhai nad ydyn nad ydyn nhw'n gweithio ar ddiwedd eu hoes. O ran pobl o oedran pensiwn, mae'r gyfradd tlodi yn cynyddu 2.4% ar gyfartaledd ar gyfer y rhai yn 12 mis olaf eu hoes.
- Pobl Blaenau Gwent, Caerdydd a Chasnewydd sydd â'r risg uchaf o farw mewn tlodi.
- Yn 2024, profodd 7,700 o bobl dlodi tanwydd yn 12 mis olaf eu hoes, sy'n cyfateb i 22% o'r holl farwolaethau a gofnodwyd.
- Roedd 23% o bobl o oedran gweithio ac oedran pensiwn yn 12 mis olaf eu hoes mewn tlodi tanwydd.
- Gwelwyd y cyfraddau uchaf o dlodi tanwydd ar ddiwedd oes yn Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Chastell-nedd Port Talbot, a hynny ar gyfer pobl o oedran gweithio ac oedran pensiwn.

## Argymhellion

Bod Llywodraeth Cymru yn:

1. Cynnwys pobl sy'n byw gyda salwch terfynol o fewn y cynllun sy'n cynnig gostyngiad ar gyfer treth y cyngor.
2. Cyflwyno cymorth ariannol ychwanegol i bobl sy'n byw gyda salwch terfynol i helpu gyda chostau ynni.
3. Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfeirio pobl sy'n byw gyda salwch terfynol a'u gofalwyr at gyngor budd-daliadau lles yn rheolaidd ac yn effeithiol.
4. Gofyn i Unedau Data Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru i gyhoeddi data a'r dangosyddion hynny sy'n mesur cyflogaeth, incwm a chyfoeth a brofir gan bobl â nodweddion gwarchodedig yn ogystal â gweld beth yw effaith hynny ar dlodi ar ddiwedd oes.




# Diffiniadau

Yn y dadansoddiad hwn defnyddir y diffiniadau canlynol.

## Tlodi

Mae'r adroddiad yn defnyddio diffiniad y *Social Metrics Commission* ar gyfer diffinio tlodi. Mae'r Comisiwn yn diffinio tlodi fel yr incwm sy'n weddill ar ôl tynnu allan y 'costau anochel' sef er enghraifft tai, gofal plant a chostau sy'n ymwneud ag anabledd.

Mae rhai cyfyngiadau i'r diffiniad hwn o hyd. Fodd bynnag, dyma'r diffiniad mwyaf cynhwysfawr sydd ar gael ar hyn o bryd. Dyma ddiffiniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n ystyried costau ychwanegol anabledd a salwch yn ogystal â sefyllfa ariannol unigolyn. O ganlyniad, mae'n mesur eu risg o brofi tlodi.

## Tlodi tanwydd

Mae'r diffiniad o dlodi tanwydd a ddefnyddir ganddyn nhw'n seiliedig ar yr hyn a ddefnyddir yn yr Alban, sy'n ystyried gwariant ar ynni ac incwm ar ôl i gostau ynni gael eu talu.

Mae'r diffiniad a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn yn wahanol i'r diffiniad technegol a ddefnyddir yn yr Alban mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'n ystyried yr holl ddefnydd o ynni, nid costau gwresogi yn unig, sy'n rhoi darlun mwy cyflawn o sefyllfa rhywun. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan ei fod yn adlewyrchu'r gwariant ar offer meddygol sy'n defnyddio trydan o'r grid. Yn ail, mae'n ystyried gwariant gwirioneddol, yn hytrach na defnyddio model i weld beth yw'r costau ar gyfer cyrraedd tymheredd penodol. Mae hynny'n golygu **nad yw'r mesur hwn o dlodi tanwydd yn nodi pobl a ddylai fod yn gwario mwy na hyn, ond sy'n gwneud hebddo** – naill ai trwy beidio â throi'r gwres ymlaen neu'n 'hunan-ddatgysylltu' trwy beidio â rhoi mwy o arian yn eu mesurydd rhagdalu. Felly, y manylion ar gyfer yr adran hon yw'r terfynau isaf ar gyfer nifer y bobl sy'n marw mewn tlodi tanwydd.

# Tlodi ar ddiwedd oes yng Nghymru

Yng Nghymru, bu farw 17% o'r rhai a fu farw yn 2024 farw mewn tlodi. Bu farw 6100 o bobl mewn tlodi yn 12 mis olaf eu hoes.

### Tabl un: Nifer a chyfran y bobl fu farw mewn tlodi yng Nghymru 2024

| | Ym mlwyddyn olaf eu hoes | | Ddim ym mlwyddyn olaf eu hoes | |
|---|---|---|---|---|
| | n | % | n | % |
| Oedran gweithio | 1500 | 32% | 465,600 | 25% |
| Oedran pensiwn | 4600 | 16% | 87,500 | 13% |

Mae bod yn eu blwyddyn olaf eu hoes yn cynyddu'r risg o brofi tlodi ar gyfer pobl o oedran gweithio ac oedran pensiwn – er bod y risg yn llawer uwch ar gyfer y rhai o oedran gweithio. Mae'r cyfraddau tlodi ar gyfer pobl o oedran gweithio yng Nghymru yn ystod 12 mis olaf eu hoes yn cynyddu ar gyfartaledd o 6.5% o'i gymharu â'r rhai nad ydyn nhw'n gweithio ar ddiwedd eu hoes. O ran pensiynwyr mae cyfraddau tlodi yn cynyddu 2.4% ar gyfartaledd i'r rhai ar ddiwedd eu hoes.

Cymru sydd â'r gyfran uchaf o bobl o oedran gweithio sy'n profi tlodi ym mlwyddyn olaf eu hoes o hyd, sef 32%. Mae hyn wedi cynyddu o 30% yn 2023.

### Tabl dau: Cyfran y bobl sy'n marw mewn tlodi yng ngwledydd y DU yn 2024

| | Oedran gweithio | | Oedran pensiwn | |
|---|---|---|---|---|
| Gwlad | Yn 12 mis olaf eu hoes | Ddim yn 12 mis olaf eu hoes | Yn 12 mis olaf eu hoes | Ddim yn 12 mis olaf eu hoes |
| Lloegr | 28% | 21% | 16% | 13% |
| Cymru | 32% | 25% | 16% | 13% |
| Yr Alban | 26% | 19% | 16% | 13% |
| Gogledd Iwerddon | 26% | 20% | 18% | 15% |


Mae'r data yn dangod bod amrywiaeth ar draws gwahanol rannau o Gymru. Blaenau Gwent, Caerdydd a Chasnewydd oedd â'r cyfraddau tlodi uchaf ar ddiwedd oes, ar gyfer pobl o oedran gweithio ac oedran pensiwn.

### Tabl tri: Cyfran y bobl sy'n marw mewn tlodi fesul awdurdod lleol 2024

| Awdurdod lleol | Canran y bobl o oedran gweithio mewn tlodi ym mlwyddyn olaf eu hoes | Canran y bobl o oedran pensiwn mewn tlodi ym mlwyddyn olaf eu hoes |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 36% | 19% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 32% | 16% |
| Caerffili | 33% | 17% |
| Caerdydd | 36% | 18% |
| Sir Gaerfyrddin | 31% | 15% |
| Ceredigion | 29% | 14% |
| Conwy | 30% | 15% |
| Sir Ddinbych | 32% | 16% |
| Sir y Fflint | 28% | 13% |
| Gwynedd | 30% | 14% |
| Ynys Môn | 31% | 15% |
| Merthyr Tudful | 35% | 18% |
| Sir Fynwy | 27% | 12% |
| Castell-nedd Port Talbot | 35% | 18% |
| Casnewydd | 36% | 18% |
| Sir Benfro | 30% | 15% |
| Powys | 28% | 13% |
| Rhondda Cynon Taf | 35% | 18% |
| Abertawe | 35% | 18% |
| Torfaen | 32% | 16% |
| Bro Morgannwg | 29% | 14% |
| Wrecsam | 32% | 16% |

O ystyried y tri dadansoddiad blynyddol a gynhaliwyd ar ran Marie Curie, mae cyfran y bobl o oedran gweithio mewn tlodi yn ystod 12 mis diwethaf eu hoes wedi cynyddu. Yn y cyfamser, mae cyfran y bobl o oedran pensiwn mewn tlodi yn 12 mis diwethaf eu hoes wedi gostwng.


### Graff un: Cyfran y bobl sy'n marw mewn tlodi dros amser yng Nghymru





Rhwng 2023 a 2024 bu cynnydd yn nifer y bobl o oedran gweithio mewn tlodi ar ddiwedd eu hoes ym mhob awdurdod lleol. Y cynnydd cyfartalog oedd 1.5%.

Ar gyfer pobl o oedran pensiwn ar ddiwedd eu hoes, bu gostyngiad o lai na 1% yn y nifer oedd mewn tlodi rhwng 2023 a 2024 ym mhob awdurdod lleol.

### Graff dau: Cyfran y bobl o oedran gweithio (20-65 oed) yn marw mewn tlodi dros amser



## Graff tri: Cyfran y bobl o oedran pensiwn (66 oed+) yn marw mewn tlodi dros amser



# Tlodi tanwydd ar ddiwedd oes yng Nghymru

Yn 2024 yng Nghymru, profodd 7,700 o bobl dlodi tanwydd yn 12 mis olaf eu hoes, sy'n cyfateb i 22% o'r holl farwolaethau a gofnodwyd.

Roedd 23% o bobl o oedran gweithio ac oedran pensiwn yn 12 mis olaf eu hoes mewn tlodi tanwydd.

### Tabl pedwar: Cyfran y bobl yn marw o ganlyniad i dlodi tanwydd: Cenhedloedd y DU 2024

| | Oedran gweithio | | Oedran pensiwn | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwlad** | **Yn 12 mis olaf eu hoes** | **Ddim yn 12 mis olaf eu hoes** | **Yn 12 mis olaf eu hoes** | **Ddim yn 12 mis olaf eu hoes** |
| Lloegr | 21% | 19% | 20% | 18% |
| Cymru | 23% | 20% | 23% | 21% |
| Yr Alban | 21% | 18% | 21% | 19% |
| Gogledd Iwerddon | 24% | 21% | 27% | 24% |

Gwelwyd y cyfraddau uchaf o dlodi tanwydd ar ddiwedd oes yn Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Chastell-nedd Port Talbot, ar gyfer pobl o oedran gweithio ac oedran pensiwn.


### Tabl pump: Cyfran y bobl yn marw mewn tlodi tanwydd fesul awdurdod lleol 2024

| Awdurdod lleol | Canran y bobl o oedran gweithio mewn tlodi ym mlwyddyn olaf eu hoes | Canran y bobl o oedran pensiwn mewn tlodi ym mlwyddyn olaf eu hoes |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 26% | 25% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 22% | 21% |
| Caerffili | 23% | 23% |
| Caerdydd | 24% | 23% |
| Sir Gaerfyrddin | 22% | 21% |
| Ceredigion | 22% | 21% |
| Conwy | 23% | 22% |
| Sir Ddinbych | 24% | 23% |
| Sir y Fflint | 21% | 19% |
| Gwynedd | 22% | 21% |


| Awdurdod lleol | Canran y bobl o oedran gweithio mewn tlodi ym mlwyddyn olaf eu hoes | Canran y bobl o oedran pensiwn mewn tlodi ym mlwyddyn olaf eu hoes |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 23% | 22% |
| Merthyr Tudful | 25% | 24% |
| Sir Fynwy | 20% | 19% |
| Castell-nedd Port Talbot | 24% | 23% |
| Casnewydd | 24% | 23% |
| Sir Benfro | 23% | 22% |
| Powys | 22% | 21% |
| Rhondda Cynon Taf | 24% | 23% |
| Abertawe | 24% | 23% |
| Torfaen | 24% | 23% |
| Bro Morgannwg | 21% | 20% |
| Wrecsam | 23% | 22% |

Ar draws pob awdurdod lleol bu cynnydd bach iawn (llai nag 1%) yng nghyfran y bobl mewn tlodi tanwydd ar ddiwedd eu hoes rhwng 2023 a 2024.

### Graff pedwar: Cyfran y bobl o oedran gweithio yn marw mewn tlodi tanwydd dros amser



**Graff pump: Cyfran y bobl o oedran pensiwn yn marw mewn tlodi tanwydd dros amser**




# Pwy sydd mewn tlodi ar ddiwedd eu hoes?

Oherwydd cyfyngiadau data, dydy hi ddim wedi bod yn bosibl pennu sut mae anghydraddoldeb ar sail nodweddion gwarchodedig yn effeithio ar y risg o farw mewn tlodi neu dlodi tanwydd yn benodol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae data ar lefel y DU yn tynnu sylw at faterion sy'n debygol iawn o fod yn wir yng Nghymru.

Mae menywod o oedran gweithio yn ystod 12 mis olaf eu hoes ychydig yn fwy tebygol o fod mewn tlodi na dynion yn 12 mis olaf eu hoes – 29% o'i gymharu â 28%. Mae cyfraddau tlodi ar ddiwedd oes yr un fath ar gyfer dynion a menywod o oedran pensiwn.

Mae cyfraddau tlodi ar ddiwedd oes yn llawer uwch ar gyfer grwpiau ethnig leiafrifol. Mae dros 40% o bobl o oedran gweithio sydd o hil Asiaidd, Du neu o hil gymysg mewn tlodi yn ystod 12 mis olaf eu hoes o'i gymharu â 25% o bobl wyn o oedran gweithio. Gwelir patrwm tebyg ymhlith y rhai o oedran pensiwn.

Mae'r sefyllfa yn fwy cymysg ar gyfer tlodi tanwydd. O ran y rhai o oedran gweithio, mae cyfraddau tlodi tanwydd yn uwch ymhlith dynion (22.6% o'i gymharu â 19.8%), ond mae'r sefyllfa yn groes i hynny ar gyfer y rhai o oedran pensiwn, lle'r oedd 18.1% o ddynion mewn tlodi tanwydd yn ystod 12 mis olaf eu hoes o'i gymharu â 22.6% o fenywod.

Roedd tlodi tanwydd yn fwy cyffredin ar gyfer grwpiau ethnig leiafrifol ar ddiwedd oes, gyda 26.7% mewn tlodi tanwydd o'i gymharu â 19.5% o bobl wyn.

# Casgliad

Mae'r manylion a gyflwynir yn y papur hwn yn dangos sefyllfa sy'n peri pryder. Mae pobl ar ddiwedd oes yn parhau i wynebu risg uwch o dlodi, gyda chyfran y bobl o oedran gweithio mewn tlodi ar ddiwedd oes yng Nghymru yn dangos cynydd o 2% o'i gymharu â 2023. Dydy'r cyfraddau tlodi tanwydd ar ddiwedd oes ddim wedi newid.

Mae gormod o bobl yng Nghymru yn parhau i farw mewn tlodi. Mae miloedd o bobl yn methu gwneud y gorau o'r amser sydd ganddyn nhw ar ôl oherwydd biliau cynyddol a phryderon cyson ynghylch cael dau ben llinyn ynghyd.

Dydy hyn ddim yn anochel. Rhaid i lunwyr polisi, darparwyr gwasanaethau a gwasanaethau gofal iechyd ganolbwyntio ar y caledi ariannol sy'n wynebu pobl sy'n byw gyda salwch terfynol a'r rhai sy'n agos atyn nhw.

Er nad yw'r cyfan o'r ddulliau sydd ar gael i fynd i'r afael â thlodi ar gael gan Llywodraeth Cymru, maen nhw'n gallu, ac mae'n rhaid iddyn nhw, gymryd camau i gefnogi pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn well yn ogystal â lleihau'r nifer sy'n marw mewn tlodi.

Nid yw ein hargymhellion wedi newid ers cyhoeddi 'Marw mewn Tlodi' yng Nghymru yn 2023.

### Treth y Cyngor

I lawer o aelwydydd, treth y cyngor yw'r gost sefydlog fwyaf ac eithrio tai. Mae treth y cyngor ar gyfer Band D yn £2710 y flwyddyn neu £226 y mis yng Nghymru ar gyfartaledd yn 2025-26. Mae llunio rheoliadau cenedlaethol newydd ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cynnig cyfle i sicrhau bod pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn gymwys i dderbyn gostyngiad o ran Treth y Cyngor.

**Argymhelliad 1:** Cynnwys pobl sy'n byw gyda salwch terfynol o fewn Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

### Costau ynni

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau cyfyngedig i fynd i'r afael â mater costau ynni. Mae camau gweithredu i wella effeithlonrwydd ynni o fewn y cartref sy'n cael ei weithredu drwy cynllun Nyth (*Nest*) a'r gefnogaeth ar gyfer y tariff cymdeithasol yn cael eu croesawu. Fodd bynnag, yn y tymor byr i'r tymor canolig, gallai Llywodraeth Cymru leihau tlodi tanwydd ymhlith pobl sy'n byw gyda salwch terfynol drwy daliadau cymorth uniongyrchol.

**Argymhelliad 2:** Cyflwyno cymorth ariannol ychwanegol i bobl sy'n byw gyda salwch terfynol i helpu gyda chostau ynni.

### Mynediad at fudd-daliadau

Mae gormod o bobl sydd ddim yn hawlio'r budd-daliadau y mae ganddyn nhw hawl iddyn nhw. Mae cael mynediad at gyngor ac arweiniad yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn manteisio ar bob cymorth ariannol y mae ganddyn nhw hawl iddo. Bydd pobl sy'n byw gyda salwch terfynol, a'r rhai sy'n agos atyn nhw, yn dod i gysylltiad ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn mewn sefyllfa cwbl allweddol mewn cyfeirio pobl at y cymorth ariannol sydd ar gael.

**Argymhelliad 3:** Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfeirio pobl sy'n byw gyda salwch terfynol a'u gofalwyr at gyngor budd-daliadau lles yn rheolaidd ac yn effeithiol.

### Data

Mae ein dealltwriaeth o bwy sydd mewn mwy o berygl o farw mewn tlodi ar hyn o bryd yn dibynnu ar ddata ar lefel y DU. Er mwyn deall maint y broblem yng Nghymru yn llawn, mae'n rhaid i ni wella'r data sydd sydd ar gael

**Argymhelliad 4:** Gofyn i Unedau Data Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru i gyhoeddi data a dangosyddion ar yr anghydraddoldebau mewn cyflogaeth, incwm a chyfoeth a brofir gan bobl â nodweddion gwarchodedig a gweld beth yw effaith hynny ar dlodi ar ddiwedd oes.

# Cyfeirnodau

1. Cyngor ar Bopeth (2022) *Dyledus: Profiadau o ôl-ddyledion treth gyngor yng Nghymru*
2. Llywodraeth Cymru "Lefelau'r Dreth Gyngor: Ebrill 2025 i Mawrth 2026" https://www.llyw.cymru/lefelaur-dreth-gyngor-ebrill-2025-i-fawrth-2026-html [*Cyrchwyd 15/09/2025*]

**Natasha Davies**
Uwch Reolwr Polisi, Cymru
natasha.davies2@mariecurie.org.uk

Tachwedd 2025

Marie Curie yw prif elusen diwedd oes y DU. Pwy bynnag ydych chi, beth bynnag fo'ch salwch, rydym gyda chi tan y diwedd.

Rhif cofrestredig yr elusen 207994 (Cymru a Lloegr), SC038731 (Yr Alban) P391

Marie Curie CYMRU